

# MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL ATODOL

## (MEMORANDWM RHIF 4)

### Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio)

1. Gosodir y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol (“LCM”) Atodol hwn o dan Reol Sefydlog 29.2. Mae Rheol Sefydlog 29 yn rhagnodi bod rhaid gosod memorandwm cydsyniad deddfwriaethol, ac y ceir cyflwyno cynnig cydsyniad deddfwriaethol, gerbron Senedd Cymru os yw Bil gan Senedd y DU yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru at ddiben sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru neu sy'n addasu'r cymhwysedd hwnnw.
2. Cyflwynwyd Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) (“y Bil”) yn Nhŷ'r Cyffredin ar 22 Medi 2022, a gosodwyd LCM yn seiliedig ar y Bil fel y'i cyflwynwyd.
3. Cyflwynwyd 15 o welliannau<sup>1</sup> gan Lywodraeth y DU i'r Bil ar 16 Tachwedd, i'w hystyried yng Nghyfnod Pwyllgor Tŷ'r Cyffredin, ac ystyriwyd y rhain yn yr [LCM\(2\) atodol](#) a osodwyd ar 21 Rhagfyr.
4. Ar 11 Ionawr 2023, cyflwynodd Llywodraeth y DU 19 o welliannau pellach<sup>2</sup> i'r Bil, cyn y Cyfnod Adrodd, a gynhaliwyd ar 18 Ionawr. Ystyriwyd y rhain yn yr [LCM\(3\) atodol](#) a osodwyd ar 6 Chwefror.
5. Ar 16 Chwefror, cyflwynodd Llywodraeth y DU welliannau pellach<sup>3</sup> sy'n cael eu hystyried yn yr LCM(4) atodol hwn.
6. Mae'r Bil, fel y'i dygwyd ymlaen o Dŷ'r Cyffredin, i'w weld yn: [Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir \(Dirymu a Diwygio\) \(parliament.uk\)](#).
7. Ysgrifennais at y Llywydd ar 03 Mawrth i amlinellu nad oedd digon o amser wedi bod i egluro goblygiadau'r newidiadau hyn yn y Bil ar gyfer datganoli, ac yn ehangach, gan na wnaeth Llywodraeth y DU rannu cynnwys gwelliannau a gyflwynwyd gan y Llywodraeth cyn eu cyflwyno, ac na fyddai'n bosibl gosod LCM atodol o fewn y cyfnod arferol o bythefnos.

### Amcan(ion) Polisi

8. Disgrifiwyd amcan polisi datganedig Llywodraeth y DU ar gyfer cyfraith yr UE a ddargedwir (“REUL”) yn ei dogfen Benefits of Brexit ym mis Ionawr 2022, yn amlinellu ‘Our intent is to amend, replace, or repeal all the retained EU law that is not right for the UK’<sup>4</sup>.

---

<sup>1</sup> Cyfnod Pwyllgor: Dydd Mercher 16 Tachwedd 2022 – Gwelliannau a gyflwynwyd:

[retained\\_rm\\_pbc\\_1116.pdf \(parliament.uk\)](#)

<sup>2</sup>Cyfnod Adrodd: Dydd Mercher 11 Ionawr 2023 – Papur gwelliannau: [retained\\_rep\\_rm\\_0111.pdf \(parliament.uk\)](#)

<sup>3</sup> Rhestr o welliannau wedi'u gosod mewn trefn: [Bil HL 89—I \(parliament.uk\)](#)

<sup>4</sup> [The Benefits of Brexit: How the UK is taking advantage of leaving the EU \(publishing.service.gov.uk\)](#)

## Crynodeb o'r Bil

9. Mae'r Bil yn enw'r Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol, ac mae'r cyfrifoldeb dros lywio'r Bil bellach wedi'i drosglwyddo i'r Adran Busnes a Masnach newydd.

10. Mae prif ddarpariaethau'r Bil yn cwmpasu'r canlynol:

- Diddymu (machlud) neu gymhathu REUL erbyn diwedd 2023.
- Diddymu'r egwyddor o oruchafiaeth cyfraith yr UE o gyfraith y DU erbyn diwedd 2023.
- Hwyluso llysoedd domestig i wyro oddi wrth gyfraith achosion a ddargedwir.
- Darparu mecanwaith i Swyddogion Cyfraith Llywodraeth y DU a'r Llywodraethau Datganoledig ymyrryd mewn achosion ynglŷn â REUL, neu eu hatgyfeirio at lys apêl, pan fo'n berthnasol.
- Diddymu hawliau a rhwymedigaethau cyfraith yr UE sydd ag effaith uniongyrchol yng nghyfraith y DU erbyn diwedd 2023.
- Diddymu egwyddorion cyffredinol cyfraith yr UE yng nghyfraith y DU erbyn diwedd 2023.
- Sefydlu rheol flaenoriaeth newydd sy'n ei gwneud yn ofynnol i ddeddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir (RDEUL) gael ei dehongli a'i chymhwyso'n gyson â deddfwriaeth ddomestig.
- Israddio statws RDEUL at ddiben ei diwygio'n haws.
- Creu cyfres o bwerau sy'n caniatáu i REUL gael ei dirymu neu ei disodli, ei hailddatgan neu ei diweddarau a'i dileu neu ei diwygio i leihau beichiau.

11. Mae'r Bil yn gwneud newidiadau i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 ("EUWA"), sy'n ddeddfiad gwarchoddedig o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae cymalau amrywiol o fewn y Bil (fel yr amlinellir isod) yn addasu'r darpariaethau presennol yn EUWA, ac o'r herwydd yn addasu cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

### **Newidiadau i'r Bil ers cyhoeddi'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol cyntaf, yr LCM(2) atodol a'r LCM(3) atodol, y mae angen cydsyniad y Senedd ar eu cyfer erbyn hyn**

12. Mae'r tabl yn atodiad 1 yn disgrifio gwelliannau Llywodraeth y DU ac yn ystyried eu heffaith. Fodd bynnag, ar y cyfan gellir rhannu gwelliannau Llywodraeth y DU fel a ganlyn:

- a. *gwelliannau'n ymwneud ag eithriadau o fachlud;*
- b. *gwelliannau i egluro bod offerynnau statudol estyn neu gadw yn dal i fod o fewn pŵer, pan fyddant yn digwydd cynnwys darpariaethau sydd y tu allan i gwmpas y machlud;*
- c. *gwelliannau'n ymwneud â "chyfraith gymathedig" ("assimilated law");*
- d. *gwelliannau'n ymwneud â diogelu data.*

13. Mae'r gwelliannau i gymalau 1, 2, 6 a 22 o'r Bil, ac Atodlen 4 iddo, yn addasu cymalau a oedd oll yn cael eu hystyried yn 'ddarpariaeth berthnasol' ac o

fewn cwmpas Rheol Sefydlog 29 at ddiben yr LCM a osodwyd ar 3 Tachwedd a'r LCM atodol a osodwyd ar 6 Chwefror. Rydym o'r farn bod angen LCM atodol mewn perthynas â'r gwelliannau i'r cymalau hynny ar y sail eu bod hefyd yn gwneud darpariaeth berthnasol.

14. Ystyrir bod mewnosod cymal newydd (*Eithriadau i fachlud o dan adran 1*) yn lle cymalau 1(2), 1(6) a 22(5) presennol o'r Bil, hefyd yn 'ddarpariaeth berthnasol' ac o fewn cwmpas RhS 29. Credir hyn am yr un rhesymau ag a nodir yn y dadansoddiad cymhwysedd ar gyfer y cymal 1 gwreiddiol, sydd i'w weld ym mharagraffau 13 a 14 o'r LCM a osodwyd ar 3 Tachwedd, hy, i'r graddau y mae at ddiben o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd i'r graddau y mae hyn yn berthnasol i feysydd datganoledig. I'r graddau y rhoddir y pŵer i wneud rheoliadau a grëir o dan y cymal hwn i Weinidogion Cymru, mae hefyd yn addasu cymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru.
15. Ystyrir bod y paragraffau newydd sy'n cael eu mewnosod yn Atodlen 1 ("*Cyfraith Gymathedig*": *diwygiadau canlyniadol*) hefyd yn 'ddarpariaeth berthnasol' ac o fewn cwmpas RhS 29. Credir hyn am yr un rhesymau ag a nodir yn y dadansoddiad cymhwysedd ar gyfer y cymal 6 gwreiddiol (sydd i'w weld ym mharagraff 55 o'r LCM a osodwyd ar 3 Tachwedd), ac ar gyfer Atodlen 1 (sydd i'w weld ym mharagraff 13 o'r LCM a osodwyd ar 6 Chwefror), hy, i'r graddau y mae at ddiben o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd i'r graddau y mae hyn yn berthnasol i feysydd datganoledig. Mae hefyd yn addasu cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd yn rhinwedd addasu EUWA, sy'n ddeddfiad gwarchoddedig.
16. Mae gwelliannau 65 a 66 Llywodraeth y DU yn dileu croesgyfeiriad at adran 183A o Ddeddf Diogelu Data 2018 (sydd i'w mewnosod gan gymal 43 o'r Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol) (Bil DPDI) a geiriad canlyniadol arall o adran 5(A3) o EUWA (a fewnosodir gan y cymal 4 gwreiddiol o'r Bil), gan na ddisgwylir i'r Bil DPDI gael y Cydsyniad Brenhinol cyn y Bil. Nid ydym o'r farn y dylid gosod LCM atodol ar gyfer y gwelliannau hyn, ar y sail eu bod yn dechnegol, nad ydynt yn gyfraith sylwedd, a'u bod yn ymwneud yn benodol â diogelu data personol, sy'n fater a gedwir yn ôl yn rhinwedd Atodlen 7A i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

### **Safbwynt Llywodraeth Cymru ar y Bil fel y'i diwygiwyd**

17. Nid yw safbwynt Llywodraeth Cymru a nodir yn yr LCM a osodwyd ar 3 Tachwedd<sup>5</sup> wedi newid gan fod y Bil yn parhau i gyflwyno'r un pryderon cyfreithiol, cyfansoddiadol, polisi ac ymarferol. Mae'r pryderon hyn wedi'u cyfleu i Lywodraeth y DU, ond nid yw gwelliannau dilynol i'r Bil wedi mynd i'r afael â hwy.
18. Ar y sail nad yw Llywodraeth y DU wedi mynd i'r afael ag unrhyw un o'r pryderon (a amlinellir yn ein LCM) ni fyddwn yn gallu argymhell i'r Senedd ei bod yn rhoi cydsyniad i'r Bil fel y mae wedi'i ddrafftio ar hyn o bryd.

---

<sup>5</sup> Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) [MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL \(senedd.cymru\)](#)

## **Goblygiadau ariannol**

19. Nid yw'n glir o hyd ar wyneb y Bil a fydd goblygiadau ariannol uniongyrchol i Lywodraeth Cymru neu i'r Senedd yn deillio o'r pwerau o dan y Bil.

## **Casgliad**

20. Fel y nodir uchod, mae'r gwelliannau i gymalau 1, 2, 6, 22 ac Atodlen 4, mewnosod cymal newydd (*Eithriadau i fachlud o dan adran 1*), a mewnosod paragraffau newydd o fewn Atodlen 1 i'r Bil, yn gwneud darpariaeth o fewn cymhwysedd datganoledig y Senedd ac felly mae angen cydsyniad y Senedd. Fodd bynnag, o gofio ein pryderon parhaus am y Bil, nad yw'r gwelliannau'n mynd i'r afael â hwy, nid ydym mewn sefyllfa i argymhell bod cydsyniad yn cael ei roi i'r cynwysiadau yn y Bil, nac i ddarpariaethau eraill y Bil, fel y nodir yn yr LCM gwreiddiol.

**Mick Antoniw AS**

**Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad**

**10 Mawrth 2023**

Atodiad 1 – gwelliannau Llywodraeth y DU a gyflwynwyd ar 16 Chwefror 2023, ac y cytunwyd arnynt wedi hynny yng Nghyfnod Pwyllgor Tŷ'r Arglwyddi.

Rhif gwelliant <sup>6</sup>	y Cymal sy'n cael ei ddiwygio	Sylwadau
Gwelliannau'n ymwneud ag eithriadau o fachlud.		
31	Cymal 1(1) (Machlud is-ddeddfwriaeth sy'n deillio o'r UE a deddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir).	Gwelliant technegol. Mae'r gwelliant hwn yn dileu'r cymal 1(2) gwreiddiol o'r Bil ac yn rhoi cymal newydd yn ei le ( <i>Eithriadau i fachlud o dan adran 1</i> ), fel y manylir ymhellach isod.
41	Cymal 1(6) (Machlud is-ddeddfwriaeth sy'n deillio o'r UE a deddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir).	Gwelliant technegol. Mae'r gwelliant hwn yn dileu'r cymal 1(6) gwreiddiol o'r Bil ac yn rhoi cymal newydd yn ei le ( <i>Eithriadau i fachlud o dan adran 1</i> ), fel y manylir ymhellach isod.
45	Cymal newydd: ( <i>Eithriadau i fachlud o dan adran 1</i> ).	Mae'r gwelliant hwn yn ddarpariaeth newydd yn lle'r cymalau 1(2), 1(6), a 22(5) gwreiddiol o'r Bil. Mae'n nodi'r hyn sy'n cael ei eithrio'n awtomatig, neu y gellir ei "bennu" (" <i>specified</i> ") mewn rheoliadau i gael ei eithrio, o gwmpas y machlud yng nghymal 1(1) o'r Bil.  Mae is-gymal (1)(a) yn cynnwys eithriad i'r machlud o dan gymal 1 ar gyfer "cyfraith gwasanaethau ariannol berthnasol" (" <i>relevant financial services law</i> "), yn debyg i'r cymal 22(5) gwreiddiol o'r Bil.  Mae is-gymal (1)(b) yn cynnwys eithriad i'r machlud o dan gymal 1 ar gyfer unrhyw offeryn "penodedig" neu ddarpariaeth "benodedig" o offeryn. Mae is-gymal (2) yn cadarnhau bod "penodedig" yn golygu mewn rheoliadau a wneir gan awdurdod cenedlaethol perthnasol (sydd, yn achos deddfwriaeth o fewn cymhwysedd y Senedd, yn gallu cael ei wneud gan Weinidogion y Goron neu Weinidogion Cymru, yn unol â chymal 1(2) gwreiddiol o'r Bil REUL). Fodd bynnag, mae'r eithriad hwn yn cael ei estyn

<sup>6</sup> Mae'r gwelliannau wedi'u trefnu yn ôl y categorïau a amlinellir ym mharagraff 12 ar dudalen 2.

			<p>fel y bydd unrhyw beth sy'n cael effaith o dan offeryn neu ddarpariaeth sydd wedi'i "bennu" neu ei "phennu" yn cael ei arbed yn awtomatig.</p> <p>Mae is-gymal (1)(c) yn cynnwys eithriad newydd i'r machlud o dan gymal 1, er mwyn galluogi disgrifiadau o "fân offerynnau" (<i>"minor instruments"</i>) i gael eu "pennu" a'u cadw mewn rheoliadau.</p> <p>Mae is-gymal (1)(d) yn cynnwys eithriad newydd i'r machlud o dan gymal 1 ar gyfer "darpariaeth drosiannol, darpariaeth ddarfodol neu ddarpariaeth arbed" (<i>"transitional, transitory or saving provision"</i>).</p> <p>Mae is-gymal (2) yn cynnwys diffiniadau o derminoleg a ddefnyddir yn is-gymal (1). Er bod y diffiniadau o "gyfraith gwasanaethau ariannol berthnasol" a "phennu" yn adlewyrchu'r cymalau 1(2) a 22(5) gwreiddiol, mae "mân offeryn" a "darpariaeth drosiannol, darpariaeth ddarfodol neu ddarpariaeth arbed" yn ddarpariaethau newydd, fel yr amlinellir uchod.</p> <p>Mae is-gymal (3) yn egluro bod unrhyw gyfeiriad yn is-gymal (1), neu mewn unrhyw reoliadau a wneir o dan y cymal hwnnw, at beth yn gyfeiriad at y peth fel y mae'n bodoli yn union cyn yr amser pan fyddai'r dirymiad o dan gymal 1(1) yn gymwys fel arall mewn perthynas ag ef (yn debyg i'r cymal 1(6) gwreiddiol), oni nodir yn wahanol.</p> <p>Yn olaf, mae is-gymal (1) yn cynnwys geiriad i egluro nad yw unrhyw reoliadau cadw ond yn gymwys i'r offerynnau hynny neu'r darpariaethau hynny o offerynnau i'r graddau y maent yn ddarostyngedig i'r machlud. Gwneir darpariaeth debyg ar gyfer rheoliadau estyn (gweler y sylwadau ar welliant 52 i gymal 2 isod).</p>
144	Cymal Cychwyn, trosiannol arbedion	22: ac	<p>Gwelliant technegol.</p> <p>Mae'r gwelliant hwn yn dileu'r cymal 22(5) gwreiddiol sydd wedi ei gynnwys yn y cymal newydd (<i>Eithriadau i fachlud o dan adran 1</i>).</p>

138	Atodlen 4: Rheoliadau: Y weithdrefn	Gwelliant technegol.  Mae'r gwelliant canlyniadol hwn yn dileu'r cyfeiriad presennol yn Atodlen 4 at y cymal 1 gwreiddiol, ac yn ei ddisodli gan gyfeirio at y cymal newydd ( <i>Eithriadau i fachlud o dan adran 1</i> ).  Mae hyn hefyd yn golygu bod unrhyw reoliadau a wneir o dan y cymal newydd ( <i>Eithriadau i fachlud o dan adran 1</i> ) yn ddarostyngedig i weithdrefn negyddol y Senedd.
Gwelliannau i egluro bod offerynnau statudol estyn neu gadw yn dal i fod o fewn pŵer, pan fyddant yn digwydd cynnwys darpariaethau sydd y tu allan i gwmpas y machlud.		
45	Cymal newydd: ( <i>Eithriadau i fachlud o dan adran 1</i> ).	Gwelliant technegol.  Gweler y sylwadau sydd eisoes wedi eu darparu ar gyfer Cymal newydd: ( <i>Eithriadau i fachlud o dan adran 1</i> ) uchod.
52	Cymal 2: Estyn machlud o dan adran 1.	Gwelliant technegol.  Yn debyg i'r cymal newydd ( <i>Eithriadau i fachlud o dan adran 1</i> ) a amlinellir uchod, mae'r ddarpariaeth hon yn mewnosod geiriad yng nghymal 2 i egluro nad yw unrhyw reoliadau a wneir o dan 2(1) i estyn y dyddiad machlud ond yn gymwys i'r <i>graddau</i> y mae'r offeryn neu'r disgrifiad o ddeddfwriaeth yn ddarostyngedig i'r machlud.
Gwelliannau'n ymwneud â "chyfraith gymathedig".		
73 a 77	Cymal 6: Cyfraith Gymathedig.	Gwelliannau technegol.  Mae'r gwelliannau hyn (i) yn mewnosod darpariaeth newydd yng nghymal 6(1) o'r Bil, i ailenwi cyrff o gyfreithiau yn ymwneud â thaliadau uniongyrchol i ffermwyr o ran amseroedd ar ôl diwedd 2023; a (ii) yn mewnosod diffiniadau newydd yng nghymal 6(7), o ganlyniad i'r gwelliant i gymal 6(1).
78, 79 ac 80	Atodlen 1: Cyfraith Gymathedig: Gwelliannau Canlyniadol.	Mae Atodlen 1 ar hyn o bryd yn cynnwys diwygiadau o ganlyniad i ailenwi cyrff neu fathau o gyfreithiau gan is-gymal 6(1), gan gynnwys diwygiadau i EUWA a'r Bil ei hun.  Mae gwelliannau 78 ac 80 i Atodlen 1 yn cynnwys diwygiadau canlyniadol i ddarnau eraill o ddeddfwriaeth sylfaenol â blaenoriaeth uchel, gan gynnwys y Deddfau

		<p>Dehongli (sef Deddf Dehongli (Gogledd Iwerddon) 1954, Deddf Dehongli 1978, Deddf Dehongli a Diwygio Deddfwriaethol (Yr Alban) 2010, a Deddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019); Deddf Diwygio Deddfwriaethol a Rheoleiddiol 2006; y Ddeddf Taliadau Uniongyrchol i Ffermwyr (Parhad Deddfwriaethol); Deddf yr Alban 1998; Deddf Gogledd Iwerddon 1998; a Deddf Llywodraeth Cymru 2006.</p> <p>Mae gwelliant 79 yn gwneud diwygiadau pellach i EUWA, i ddiweddarau cyfeiriadau o "ddeddfwriaeth PAC uniongyrchol yr UE a ddargedwir" (<i>Retained direct EU CAP legislation</i>) i "ddeddfwriaeth PAC uniongyrchol gymathedig" (<i>Assimilated direct CAP legislation</i>), o ganlyniad i gymal 6 o'r Bil (fel y'i diwygir gan welliannau 73 a 77, a amlinellir uchod).</p>
--	--	---